

1. Enw'r Maes Gwasanaeth

GOFAL CYMDEITHASOL A THAI

2. Prif Swyddog â Chyfrifoldeb

JASON O'BRIEN – PRIF SWYDDOG DROS DRO, GOFAL CYMDEITHASOL A THAI


3. Pwrpas y Maes Gwasanaeth

Cefnogi, diogelu a galluogi pobl fregus i gael canlyniadau positif a llesiant

4. Gweledigaeth Hirdymor / Uchelgais o ran y gwasanaethau a ddarperir a/ neu'r trigolion sydd yn eu derbyn

- Rydym yn cydnabod gwerth ein gweithlu a'r heriau niferus sy'n eu hwynebu. Byddwn ni'n sicrhau ei fod yn cael cefnogaeth a hyfforddiant i wireddu ein gweledigaeth.
- Rydym am weld pobl a chymunedau bregus yn gwneud dewisiadau cadarnhaol i ddod yn annibynnol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol. Rydym yn bwriadu felly hyn drwy:
- Ymgysylltu â phobl a chymunedau i wrando, a deall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, felly mae eu barn yn helpu i lywio'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael
- Gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i ofalu am eu plant, gan ddarparu cymorth wedi'i asesu lle nad yw hyn yn bosib.
- Hysbysu a grymuso pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain o fewn eu cymunedau i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- Cydnabod gwerth rhwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol, fel y gall pobl a phartneriaid gyflawni nodau cyffredin a gwell canlyniadau.
- Gwneud y mwyaf o fuddsoddi a thrawsnewid drwy ddatblygu modelau gwasanaeth newydd sy'n gynaliadwy ac yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.
- Cymryd agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg, fel bod pobl a theuluoedd yn cael eu cefnogi i gyflawni, i aros yn eu cartref a'u cymunedau eu hunain.
- Cynyddu cynhwysiant cymdeithasol ac ysgogi gwytnwch cymunedol fel bod pobl a chymunedau wedi'u harfogi'n well ac yn meddu ar y grym i gefnogi eu hunain.

5. Strwythur timau/grwpiau ar gyfer cynllunio'r gwasanaeth



6. Heriau y mae'r Prif Swyddog / Maes Gwasanaeth yn eu hwynebu ar hyn o bryd

Datganiad cyffredinol ... cymorth i drigolion mwyaf bregus Torfaen

Oedolion a Thai

Heriau

Yr her fwyaf dybryd o bell ffordd am weddill y flwyddyn a 22/23 yw'r anawsterau o ran recriwtio a chadw staff ar bob lefel, ac mae'r sefyllfa'n ddifrifol iawn yn y meysydd gwaith cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymorth gofal (mewnol ac o ran gofal cartref a chartrefi gofal allanol).

Mae ein gallu i ymateb, asesu, a chefnogi - hanfodion y rôl yn yr adran yn cael ei beryglu tra bod y swyddi gwag yn parhau ar y lefel bresennol. Rydym wedi parhau i weld cynnydd mewn cymhlethdod o gyflwyno achosion sydd angen lefel sgiliau uchel ac adnoddau dwys.

Er bod niferoedd o ran nyrsio a gofal preswyl wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng Medi 2020 a mis Medi 2021 mae nifer y bobl sydd angen gofal dementia yn y ddau gategori wedi cynyddu 6% a 4% yn ôl eu trefn:

Actif ar 30 Medi	Medi 2020	Medi 2021	Medi-20			Medi-21			% Cynnydd Dementia
			Cyffredinol	Dementia	% Lleoliad Dementia	Cyffredinol	Dementia	% Lleoliad Dementia	
Gofal Nyrsio	103	103	71	32	31%	65	38	37%	6%
Gofal Preswyl	224	198	87	137	61%	69	129	65%	4%

Mae achosion Llys Diogelu wedi parhau i gynyddu ochr yn ochr â'r cais am Asesiadau DIM. Bydd y swyddogaeth graidd hyn yn flaenoriaethau, fodd bynnag, mae hyn yn cael sgil-ffaith ar waith datblygu wedi'i gynllunio gydag ychydig neu ddim gallu o fewn prosiectau i symud ymlaen. Mae'r diffyg manylion am Godau Ymarfer Diogelu Amddiffyn Rhyddid yn parhau i fod yn broblemus. Mae goblygiadau staffio a hyfforddiant yn anodd cynllunio ar eu cyfer heb y manylion.

Rydym wedi gweld cynnydd o 17% yn asesiadau DIM am y cyfnod Ebrill 2021 - Medi 2021 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Ar hyn o bryd rydym yn ymwneud ag 11 o unigolion drwy'r broses LID

Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn camweithio ar lefel leol, ranbarthol, a chenedlaethol er gwaethaf yr ymrwymiad parhaus o du'r partneriaid. Mae cynlluniau strategol yn heriol i symud ymlaen a chyflawni ymrwymadau grant tymor byr. Mae' anodd recriwtio i swyddi dros dro, a'r dewis arall yw recriwtio i swyddi sy'n wynebu risg yn barhaol ac yn wynebu'r potensial o gostau diswyddo.

Heriau Ariannol

Cyllid	Dyfarniad	Gwariant 2021/22 tan 30 Tachwedd 2021	Gwariant amcangyfrifir diwedd blwyddyn
	£	£	£
Y Gronfa Caledi	Gwerth adennill	2,241,710	3,362,565
Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol	1,263,984	581,518	1,263,984
Pwysau'r Gaeaf (RPB)	Gwerth adennill	185,998	185,998

Rydym wedi bod yn cefnogi pob Darparwr Cymdeithasol gyda chyllid gan gronfa Caledi Covid Gofal Cymdeithasol. Ers dechrau'r pandemig mae darparwyr wedi derbyn

Rydym wedi derbyn arian Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol gwerth £2.1m i gynnwys Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Er ein bod yn hyderus y bydd ein cynllun gwariant yn fwy erbyn diwedd Mawrth 2022 pan ddaw'r cyllid i ben, y pryder yw bod angen i'r ymateb fod yn fwy hirdymor a strategol er mwyn mynd i'r afael â'r:

Mae hyfywedd ariannol / sefydlogrwydd y trydydd sector yn risg uchel i'r cyngor yn yr un modd â'r sefyllfa ariannol gyfan yn 2022/23.

- Mae'r fethodoleg Ffioedd yn gweithio gyda'r sector cartrefi gofal yn awgrymu cynnydd o hyd at 27% mewn ffioedd yn 2022/23.
- Mae gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol fethodoleg ffioedd sy'n awgrymu cyfradd yr awr mewn perthynas â Gofal Cartref a byw â chymorth, sef £26.98, cynnydd o 55% ar ein cyfradd bresennol.
- Bydd cyhoeddiad gan LC am gyflog byw go iawn, sef £9.90 i'r holl weithwyr gofal, yn creu pwysau ychwanegol ar gyllideb Gwasanaethau Oedolion ar gyfer 2022/23.
- Rydym hefyd yn ymwybodol o gwmnïau preifat sy'n denu gofawyr cartref i ffwrdd o'r sector gyda chyflogau o hyd at £12 yr awr, eto'n sylweddol uwch na'r gyfradd a gomisiynwyd gennym.

Mae angen adolygu'r gwasanaeth cyfan sy'n debygol o arwain at adnabod yr angen am fwy o fuddsoddiad er mwyn lliniaru'r galw a'r capasiti o fewn y system gyfan.

Gweithgarwch i Greu Newid – Pennu cwmpas y goblygiadau wrth fynd ati i greu newidiadau deddfwriaethol

Er bod y dyddiad gweithredu ar gyfer y TARh wedi'i eu gohirio tan ddyddiad diweddarach yn 2022/23 mae'r holl waith modelu /cynllunio wedi tynnu sylw at y galw ychwanegol fydd yn cael ei greu, ac yn y pen draw, bwlch pellach mewn capasiti.

Mae lles staff yn parhau i fod yn destun pryder am weddill y flwyddyn hon a'r nesaf. Mae effaith negyddol Covid yn y tymor hir i'w weld ar draws yr adrannau. Mae'r staff wedi gweithio'n ddifflino dros yr 20 mis diwethaf ac maen nhw wedi'u hen ddiflasu gan Covid erbyn hyn. Mae gweithio gartref am gyfnod estynedig wedi cael effaith negyddol ar weithio mewn tîm a chymorth cyfoedion.

Ar 3 Ionawr 2022 roedd 9% o staff Gofal Cymdeithasol yn absennol. Mae ein statws ar ddychweliad LIC gweithlu wythnosol yn ambr.

3	Rhowch statws eich gweithlu o ddyddiad heddiw				
	Gwyrdd	Mae gennym ddigon o staff ar gyfer pob rôl hanfodol. Gallwn drosglwyddo staff pan fo hynny'n briodol ac nad ydym yn profi unrhyw broblemau o bwys ar hyn o bryd o ran sicrhau bod gennym staff yn lle'r rheini sy'n absennol nac o ran cyflogi staff ychwanegol.	<input type="checkbox"/>	✓	
	Ambr	Rydym yn gallu cyflenwi staff ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd gwaith, ond mae rhai gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol wedi gorfod cael eu hatal neu eu gweithredu ar sail blaenoriaeth. Ar hyn o bryd rydym yn cael rhywfaint o anhawster recriwtio rhai grwpiau staff i ddarparu'r hyn sydd ei angen.	<input checked="" type="checkbox"/>	✓	Rydym wedi dechrau dychwelyd fesul cam i rai cyfleoedd dydd cyfyngedig mewn adeiladau, ar sail sesiynol ac yn bennaf 1;1, fodd bynnag, mae'r angen i adleoli staff Dydd i gefnogi Gofal Cartref. Mae prinder therapyddion galwedigaethol gweithwyr cymdeithasol yn sylweddol ac yn cael effaith ar ymateb i atgyfeiriadau critigol yn bennaf, felly mae'r amseroedd aros yn cynyddu. Mae hyn yn agosáu at goch.
Coch	Ni allwn ond ddarparu ar gyfer gwasanaethau hanfodol ac mae gwaith yn cael ei flaenoriaethu i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf. Rydym yn cael anawsterau difrifol wrth ddarparu ar gyfer meysydd allweddol ac nid ydym yn llwyddo i recriwtio i'r rolau hynny.	<input type="checkbox"/>	✓		

Mae'r system dan straen enfawr ac mae staff yn wynebu lefelau uchel o flinder a straen sy'n gysylltiedig â gwaith oherwydd diffyg gallu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobol sy'n arwain at staff yn teimlo'n annigonol er bod hyn yn fethiant o du'r system. Rydym yn parhau i gynnig cymorth i'r holl staff ac yn canolbwyntio ar les staff.

Nid yw'r gofyniad i staff weithio'n fwy hyblyg i lenwi'r bylchau wedi cael ei gefnogi gan y system hyblygrwydd newydd, datblygwyd gwaith o amgylch hyn, system TOIL, i ymateb i'r pwysau, fodd bynnag bydd cronriad yn sgil TOIL yn achosi problemau ychwanegol y flwyddyn nesaf.

Cafwyd heriau yn 21/22 gyda'r cam i symud i blatfform newydd ar gyfer WCCIS. Yn seiliedig ar brofiadau cyfredol a hanesyddol, rydym yn rhagweld hyn yn parhau ac yn effeithio ar gapasiti staffio drwy gydol nifer o "gyfnodau segur" ac mae'n ddwys o ran adnoddau ar ffurf cefnogaeth gan ein tîm perfformiad sy'n gorfod bod ar gael i brofi'r system allan o oriau gwaith "arferol" sy'n effeithio ar gapasiti yn y tîm yn ystod oriau gwaith arferol, ynghyd â'r gofynion casglu data cynyddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol mae'r capasiti ar ei eithaf. Rydym ni wedi sicrhau drwy gyllid Llywodraeth Cymru swyddog perfformiad ychwanegol sy'n gweithio ar draws oedolion a phlant sydd yn bennaf yn gweithio'n llawn amser ar ofynion Llywodraeth Cymru am ddata ychwanegol a'r argyfwng gofal presennol, gan ryddhau amser y swyddogion i ddatblygu a gwella prosesau busnes ar draws y gwasanaeth cyfan.'

Mae'r oedi cyn lansio'r Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus newydd hefyd wedi gwaethygu rhai o'r problemau yn lleol ac yn rhanbarthol. Y gobaith oedd y byddai rhywfaint o eglurder yn dod er mwyn lleihau nifer yr anghydfodau gyda'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn gostus, o ran effaith ariannol ac amser swyddogion ac mae hefyd yn rhwystredig dros ben.

Plant a Theuluoedd

Gweithgaredd

Mae recriwtio a chadw yn yr adran yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Dechreuodd y gwaith yn 2021/22 a bydd yn:

Gweithio gyda darparwyr i gefnogi mentrau recriwtio

Gweithio gyda chydweithwyr i ymgysylltu â recriwtiaid posib

Adolygu'r cyfuniad o sgiliau sydd eu hangen a datblygu rolau newydd a allai fod yn haws recriwtio iddynt

Gweithio gyda'r BI i drosglwyddo adnoddau therapi i'r gymuned

Hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa drwy straeon positif a sefydlu llwybrau gyrfa

Adolygu polisi /graddau recriwtio

Archwilio ffyrdd gwahanol o gyfarfod â phobl sydd efallai am ystyried gweithio yn Nhorfaen

Parhau i wneud y mwyaf o'r holl arian grant. - Lobïo Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r amserlenni a Telerau ac Amodau yn gysylltiedig â chyllid grant.

Mae'r sefyllfa ariannol yn 2021/22 yn hylaw oherwydd y nifer uchel o swyddi gwag mewnol, gofal heb ei gomisiynu, a grantiau tymor byr. Ni fydd y gyllideb bresennol yn diwallu'r pwysau a ddisgwylir. Gobeithio y bydd y pwysau yn 2022/23 yn cael ei liniaru'n rhannol trwy gyllid ychwanegol gan LC drwy gynnwys arian ychwanegol yn setliad cyllideb 2022/23 ond rydym yn cydnabod y bydd pwysau sy'n cystadlu ar gyfer yr awdurdod.

Rhagwelir y bydd trafodaethau anodd gyda darparwyr ynghylch lefelau ffioedd i bob agwedd ar ofal.

Nodwyd bod capasiti a galw yn feysydd sy'n heriol, yn enwedig yn y gymuned. Rydym wedi cymryd y camau lliniaru a ganlyn a fydd, yn ôl pob gobaith yn lleddfu'r broblem yn y tymor byr:

- Rydym wedi tynnu oriau blynyddol o gytundebau staff gofal ac wedi cynyddu'r cyflog fesul awr o 22 Rhagfyr tan 31 Mawrth 2022.
- Rydym wedi recriwtio nifer o staff o fannau eraill o'r adran i gynorthwyo yn y gymuned. Mae'n bwysig nodi bod ein ffyrdd o weithio dros dro yn ffordd o ymateb i argyfwng.

Mae dyddiad agoriad Tŷ Glas y Dorlan yn ddigwyddiad hanfodol er mwyn i Wasanaethau i oedolion ddechrau rheoli'r galw a chynyddu gallu unigolion i fod yn fwy annibynnol, a galluogi pobl i fyw'r bywyd yn y ffordd y maen nhw'n dewis ei fyw. Rydym wedi ystyried defnyddio staff o Dŷ Glas y Dorlan i gynorthwyo gyda'r argyfwng yn y gymuned, a hynny dros dro, gan gydnabod, er mwyn lleddfu'r galw a'r cymhlethdod, mae angen i ni sicrhau bod Tŷ Glas y Dorlan ar waith:

Tîm Ardal	Nifer yr Oriau	O ganlyniad
Tîm Llesiant Pont-y-pŵl	25	Cynydd yn yr anghenion – darparwr presennol yn trosglwyddo'n ôl
Tîm Llesiant Dwyrain Cwmbrân	5.25	Rhyddhau o'r ysbyty
	5.25	Rhyddhau o gyfnod seibiant mewn Cartref Nyrsio
	15.75	Rhyddhau o'r ysbyty
	8.75	Rhyddhau o'r ysbyty
	7	Pecyn Cymunedol Newydd

Tîm Llesiant Canol Cwmbrân	10.5	Rhyddhau o'r ysbyty
Tîm Llesiant Gorllewin Cwmbrân	5.25	Pecyn Cymunedol Newydd
	3.5	Pecyn Cymunedol Newydd
	15.75	Rhyddhau o'r ysbyty
	10.75	Rhyddhau o'r ysbyty
	14	Rhyddhau o'r ysbyty
	5.25	Pecyn Cymunedol Newydd
Anableddau Dysgu	7	
Cyfanswm	147 o oriau	

Y gobaith yw y bydd 2022/23 yn dod â sefydlogrwydd o ran adolygu ymarfer a chymryd y camau nesaf tuag at adeiladu cymunedau mwy gwydn fel y bwriadwyd yn flaenorol.

Hoffem wella'r cyfuniad o weithio rhithwir ac wyneb yn wyneb i adeiladu perthynas a chroesawu'r dull hyblyg o weithio o gartref a'r swyddfa.

Er bod y timau wedi gweithio'n greadigol i hyrwyddo a sicrhau bod y tîm yn parhau i weithio, collwyd rhai manteision o fod yn y swyddfa. Yn 2022/23 byddwn yn cynnwys:

- Mwy o hyfforddiant tîm a diwrnodau adeiladu tîm
- Mwy o weithio amlddisgyblaeth yn y tîm ac ar draws asiantaethau sy'n bartneriaid
- Gwella perthynas/rhwydweithiau aml-asiantaeth
- Datblygu mecanweithiau rhannu gwybodaeth gadarnhaol. Mae gweithio rhithiol hefyd wedi dod â rhai pethau positif wrth ddefnyddio cyfarfodydd rhithiol.
- Cydbwyso disgwyliadau ein hunain, ein hunigolion a'r gwasanaethau sydd ar gael
- Cynnal y cydbwysedd bywyd gwaith a gyflawnwyd gennym yn y cyfnod clo a chofio ei bwysigrwydd

Parhau â phrosiectau yn y gymuned

Canfod person cyswllt yn yr Heddlu/ Bron Afon
Cynllunio gwaith prosiect – gyda darparwyr, gyda'r BI
Croesawu ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg

Pennu ffordd y gall y TOIL a gronnir ar hyn o bryd, gael ei ad-dalu yng nghyd-destun prinder staff.

Sicrhau bod yr angen am TOIL yn cael ei gymeradwyo o flaen llaw a bod defnyddio gweithio hyblyg yno i'w gefnogi. Cynyddu capasiti staff / cyflawni sefydliad lawn.

Heriau

1. Heriau parhaus o ran recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol i swyddi gwag ar draws y gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae 11% o swyddi yn wag ar draws Swyddi Gweithwyr Cymdeithasol cymwys (ac eithrio RhC a Phenaeithaid Gwasanaeth). Nid yw'r mater yn unigryw i Dorfaen, a gyda phrinder myfyrwyr sy'n dewis astudio Gwaith Cymdeithasol, mae'n debygol o barhau am y tymor byr i'r tymor canolig. Bydd y sefyllfa barhaus hon yn effeithio ar gapasiti a gallu i gyflawni swyddogaethau statudol.
2. Heriau parhaus o ran yr adnoddau sydd ar gael yn unol â chyfyngiadau ariannol/ disgwyliadau. Ar hyn o bryd defnyddir cymysgedd o arian craidd a grant i sicrhau adnoddau i'r gwasanaeth. Gall yr arian grant ddod yn broblematig oherwydd unrhyw delerau ac amodau sydd ynghlwm ac yn enwedig oherwydd amserlenni hyfywedd y grant nad yw'n gymesur â chynllunio canolig i'r tymor hwy. Mae hyn yn creu ansefydlogrwydd i staff sydd ar gontractau tymor penodol ac yn arwain at gynllunio gwasanaethau tymor byr.
3. Mae achos busnes llawn ar gyfer adolygu'r tîm lleoliad teuluol wedi nodi'r angen am fwy o adnoddau a buddsoddiad ariannol. Er y cymeradwywyd symud ymlaen gyda hyn bydd ymgynghoriad pellach er mwyn ei weithredu'n llawn. Mae ansicrwydd amlwg ynglŷn â chanlyniad unrhyw ymgynghoriad. Bydd hyn o bosib yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth, a hynny oddi mewn i'r tîm lleoli teuluoedd a'r gallu i recriwtio a chadw gofaluwr maeth yn yr awdurdod lleol.
4. Achosion â chymhlethdodau cynyddol yn cael eu cyfeirio at y system ac o fewn y system. Mae hyn yn arwain at yr angen am fewnbwn ac ymrwymiad sylweddol gan staff, a datblygiad dull amlasiantaethol. Mae achosion cymhleth yn aml yn arwain at leoliadau cost uchel, lle nas cyflawnir canlyniadau gwell bob amser.
5. Cyflenwad llai o leoliadau mewnol a leoliadau IFA ar gyfer pobl ifanc yn arwain at ddefnyddio mwy o leoliadau preswyl, lle nad yw'r rhain wedi'u nodi'n flaenorol fel rhai sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y plentyn/person ifanc.
6. Cynnydd mewn costau lleoliadau preswyl oherwydd cynnydd yn y galw cenedlaethol am leoliadau o'r fath. Er ein bod wedi llwyddo i reoli a rhoi'r gorau i rai lleoliadau preswyl, mae costau unigol wedi cynyddu a pharhau i gynyddu.
7. Mae'r llwybr cyfeirio ar-lein, sydd yn y broses o gael ei ddatblygu, wedi'i ohirio ar sawl achlysur oherwydd materion GDPR. Bydd hyn wedi effeithio ar gyflymder cynnydd y datblygiad hwn ac ni fydd wedi effeithio ar gapasiti (i'r pwynt hwn) yn y modd y byddem wedi rhagweld. Mae nifer anghymesur o atgyfeiriadau a chysylltiadau yn parhau nad ydynt yn symud ymlaen yn y system ac / neu a yw'n fater o ddim camau pellach(DCP), sy'n arwain at wastraff adnoddau a llai o gapasiti.

8. Mae TOIL wedi parhau i gronni oherwydd swyddi gwag a llwyth gwaith ychwanegol yn ystod y pandemig. Mae wedi bod yn anodd, a hynny'n barhaus i'r amser hwn a gronnwyd gael ei gymryd yn ôl oherwydd materion parhaus yn ymwneud â chapasiti.
9. Mae symud i blatfform newydd ar gyfer WCCIS wedi cyflwyno heriau drwy symiau sylweddol o "amser segur" a cholli gwaith. Yn seiliedig ar brofiadau cyfredol a hanesyddol, rydym yn rhagweld hyn yn parhau ac yn effeithio ar gapasiti staffio trwy gydol nifer o "gyfnodau segur".

Gweithgareddau Arfaethedig

1. Parhau i weithio gyda chydweithwyr yn Adnoddau Dynol i adolygu'r hyn y mae Torfaen yn ei gynnig i staff gwaith cymdeithasol. Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a chydweithwyr rhanbarthol er mwyn sicrhau parhad drwy lif staff gwaith cymdeithasol. Adolygu'r secondiad / cyfleoedd nawdd i staff heb gymhwyster sy'n dymuno cymhwyso. Ystyried rinweddau recriwtio staff gwaith cymdeithasol o dramor. Defnyddiwch staff gwaith cymdeithasol o asiantaethau lle bo angen ac os ydynt ar gael. Byddwn yn datblygu'r canfyddiadau a'r prosesau a sefydlwyd gan y swyddog recriwtio arbenigol.
2. Parhau i dynnu sylw at faterion amserlenni cyllid grant gyda Llywodraeth Cymru a defnyddio pwysau gwleidyddol er mwyn hyrwyddo hirhoedledd o ran y grantiau sydd ar gael. Pob aelod o staff sydd ar gontractau dros dro yn unol ag amserlenni cyllid grant yn cael contractau parhaol yn unol â'r rhwymedigaethau cyflogaeth yr ALI unwaith y byddant wedi bod yn y swydd am ddwy flynedd ac o ran gwneud hynny cynyddu diogelwch staff a'r gallu i gynnal staff mewn swyddi.
3. Mae achos busnes cadarn wedi'i greu. Ymgynghorir â rhanddeiliaid ynghylch y cynigion, a rhagwelir y bydd dull graddol o weithredu a fydd yn cynnwys adolygu ffioedd maethu a chanmoliaeth staffio sy'n gymesur ag anghenion FPT er mwyn cynyddu capasiti gofalwyr maeth tai.
4. Byddwn yn parhau i herio asiantaethau sy'n bartneriaid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau aml-asiantaeth addas yn cael eu defnyddio i wella canlyniadau i blant ag anghenion cymhleth. Pan fydd plentyn angen gwasanaeth arbenigol a / neu ddarpariaeth gofal cost uchel, byddwn yn parhau i herio ymateb asiantaethau eraill (gan gynnwys iechyd ac addysg) os bydd diffyg ariannol. Byddwn yn cyfrannu at ddatblygu llwybr atgyfeirio rhanbarthol cyffredin a pholisi uwchgyfeirio gydag iechyd lle gwelir diffyg gwasanaeth / cefnogaeth neu gyfraniad. Byddwn yn defnyddio dylanwad gwleidyddol i herio unrhyw ddiffyg mewn gwasanaeth ar lefel leol, ranbarthol, a chenedlaethol.
5. Y nod yn ar ôl adolygu'r tîm lleoli teuluoedd ac adolygu'r cynnig ariannol i ofalwyr maeth fel rhan o'r achos busnes cyffredinol (ymysg pethau eraill) yw cynyddu'r capasiti gan ei fod yn ymwneud â gofalwyr maeth sy'n cynnig lleoliadau i bobl ifanc. Byddwn ni hefyd yn ceisio datblygu darpariaeth breswyl fewnol i blant ag anghenion cymhleth, y mae llawer yn ymddangos yn ystod blynyddoedd glasod / arddegau. Byddwn ni'n parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid, i ddatblygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc er mwyn eu hatal rhag dod yn rhan o'r system a mynd ymhellach drwy'r system.
6. Byddwn yn gweithio tuag at ddatblygu darpariaeth breswyl fach yn fewnol, lle gall plant gael hyd i wasanaethau lleol a lle gall yr awdurdod lleol reoli'r gost a hwyluso camu i lawr a chamu allan o fewn amgylchedd therapiwtig lle bydd anghenion yn cael eu bodloni'n well. Byddwn ni'n gweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i leihau "elw mewn gofal" a chael mwy o ffocws ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc. Byddwn yn defnyddio dylanwad gwleidyddol o fewn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i leihau elw mewn gofal.
7. Byddwn yn gweithredu'r llwybr cyfeirio ar-lein ac yn mesur ei lwyddiant yn seiliedig ar nifer yr atgyfeiriadau / cysylltiadau sy'n cael eu derbyn a'r nifer sy'n dod yn DCP. Lle bo angen, byddwn yn defnyddio'r data a gesglir i herio asiantaethau sy'n atgyfeirio ynghylch eu haddasrwydd a phriodoldeb atgyfeiriadau at y gwasanaeth.

8. Rydym wedi treialu a bellach wedi gweithredu'r cynllun gweithio hyblyg ar draws y gwasanaeth cyfan a chapio'r (gydag amgylchiadau eithriadol) hyn sy'n cael ei gronni i uchafswm o 37 awr. Rydym yn defnyddio tanwariant i ad-dalu'r TOIL a gronnwyd ers tro fel bod yr holl staff yn dechrau 2022 heb gronni unrhyw oriau, a bydd hyn, ynghyd â'r cap 37 awr, yn caniatáu mwy o rheolaeth.

7. Gweithgareddau arfaethedig i greu newidiadau'n deillio o hunanwerthuso

	Tim	Gweithgaredd i Greu Newid	Graddfa Amser
Datganiad cyffredinol ... cymorth i drigolion fwyaf bregus Torfaen			
Oedolion a Thai			
1	Gwasanaethau oedolion, tai a chomisiynu	Gweithredu Strategaeth Gofal Cartref	<p>Aml flwyddyn</p> <p>Nodi Arweinydd Strategaeth ac adnoddau ar gyfer y prosiect.</p> <p>Ystyried arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan Wynedd, Prosiect peilot Gogledd Torfaen a'r prosiect Aseswyr ailalluogi</p> <p>Ymgysylltu â darparwyr Mai 2022</p> <p>Datblygu a chwblhau Adolygiad llawn o Ffioedd y sector Gofal Cartref</p> <p>Cynllun recriwtio mewnol ar waith /yn cael ei adolygu'n rheolaidd – canfod cyfleoedd.</p> <p>Ymestyn a diweddarau'r data a gesglir i gynnwys contractau preifat allanol * yn amodol ar gytundeb gan ddarparwyr (tîm Comisiynu)</p> <p>Sefydlu mecanweithiau cymorth ar gyfer darparwyr allanol – Gweithdai Vanguard i'w trefnu</p> <p>Deall y rhwystrau a datblygu llwybrau rhwng gwasanaethau cymorth eraill</p> <p>Ystyried cyswllt atebion digidol i ddatrysiadau digidol corfforaethol o ran casglu data.</p> <p>Cyswllt i dechnoleg gynorthwyol – yn parhau</p> <p>Datblygu strategaeth Gofal Cartref a'i chyflwyno i'r cabinet</p> <p>Datblygu drafft o fanyleb tendr wedi'i seilio ar ardal (Tîm comisiynu)</p>

7. Gweithgareddau arfaethedig i greu newidiadau'n deillio o hunanwerthuso

	Tim	Gweithgaredd i Greu Newid	Graddfa Amser
			Cytuno ar gynllun gweithredu aml flwyddyn
2	Gwasanaethau oedolion, tai a chomisiynu	Gweithredu Tŷ Glas y Dorlan – Hwb Galluogi Cymunedol	<p>Aml flwyddyn</p> <p>Prosesau busnes ar waith i gefnogi TGD.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ariannol • Arosiadau • Ymadawiadau <p>Recriwtio tîm llawn– Mehefin 2022</p> <p>Pob fflat hirdymor wedi eu gosod Mehefin 2022.</p> <p>Fflatiau byrdymor wedi'u paratoi â'r adnoddau llawn, ac yn gwbl weithredol Mehefin 2022.</p>
3	Gwasanaethau oedolion, tai a chomisiynu	Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i ailddiffinio ac ailgynllunio cyfleoedd dydd gyda phartneriaid allweddol	<p>Aml flwyddyn</p> <p>Bydd pob thema'n datblygu prototeip gwaith i brofi ein rhagdybiaethau a darparu'r mesurau llwyddiant penodol. Bydd pob prototeip yn parhau am rhwng 6 a 12 wythnos. Bydd adroddiad darluniadol gyda'r hyn a ddysgwyd, ac argymhellion yn cael ei lunio ar ddiwedd y broses. Disgwylir y bydd gweithgarwch yn helpu i ddatblygu arferion a phrosesau newydd sy'n gwella'n barhaus yn ôl cyfres o werthoedd a nodwyd.</p>
4	Gwasanaethau oedolion, tai a chomisiynu	Ar y cyd gyda Gwasanaethau PaTh: Adolygu effaith y model ymarfer newydd ar gyfer dod i oed a chamu i fywyd oedolyn, er mwyn sicrhau ei fod yn ateb y diben	<p>Aml flwyddyn</p> <p>Adrodd i'r arweinwyr i ddangos effeithiolrwydd y model pontio (Medi 2022).</p>

7. Gweithgareddau arfaethedig i greu newidiadau'n deillio o hunanwerthuso

	Tim	Gweithgaredd i Greu Newid	Graddfa Amser
5	Gwasanaethau i Oedolion, Tai a Chomisiynu a Phlant a Theuluoedd	Canfod goblygiadau newidiadau deddfwriaethol	<p>Blwyddyn sengl</p> <p>Cyswllt â swydd pontio Rhanbarthol i fewnbynnu i raglen waith.</p> <p>Wrth i ddeddfwriaeth a chanllawiau gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Genedlaethol / Llywodraeth Cymru. Bydd rhaid craffu ar y gofynion a bydd asesiad yn cael ei wneud o ran yr effaith ar y cyfan</p>
6	Gwasanaethau oedolion, tai a chomisiynu	Gweithredu Strategaeth a Chynllun Cyflawni HSG yn unol â chyfarwyddyd GTC.	<p>Aml flwyddyn</p> <p>Datblygu Cynllun Trosi Ailgartrefu Cyflym i gefnogi gweithredu dulliau RRH.</p> <p>Datblygu'r gwasanaeth canlynol a ddarperir fel rhan o'r Cynllun Strategaeth a Chyflawni PHS:</p> <p>Cynyddu unedau ac adlinio llety â chymorth a ddarperir</p> <p>Datblygu llety brys a'r hwb asesu Gweithredu Polisi Homeseeker. Datblygu a mabwysiadu polisi a phrosesau Symud Ymlaen</p> <p>Diwygio Cynllun Cyflawni PHS</p>
7	Gwasanaethau oedolion, tai a chomisiynu	Cyflawni rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (GTC)	<p>Blwyddyn sengl</p> <p>Parhau i weithio gyda LCC sy'n bartneriaid, i nodi'r tir sydd ar gael ynghyd â manylion y cynllun yn ymwneud ag angen tai o fewn Torfaen. Gwneir hyn drwy'r data a gesglir yn yr asesiad o'r farchnad dai leol a phrosiectws grant tai cymdeithasol</p> <p>Gweithio ar y cyd â chynllunio ymlaen i sicrhau bod safleoedd tai fforddiadwy ar gael ar gyfer parhau i ddarparu tai fforddiadwy</p>

Plant, Teuluoedd a Chymunedau			
1	Plant a Theuluoedd	Byddwn ni'n gweithredu dull aml-asiantaeth effeithiol o ran pennu atgyfeiriadau yn ddiogel.	<p>Bydd cynllun peilot i ddatblygu llwybr atgyfeirio yn cael ei weithredu a'i adolygu gyda'r bwriad o ddatblygu hyn yn rhanbarthol (Medi 2022)</p> <p>Datblygu dealltwriaeth a gwella'r defnydd o drothwy angen ar gyfer asiantaethau sy'n bartneriaid a thystiolaeth bod asiantaethau sy'n bartneriaid yn cymhwyso'r safonau trothwy. Tystiolaeth bod asiantaethau sy'n bartneriaid yn cymhwyso'r safonau trothwy</p> <p>Adolygu model MASSH cyfredol ar y cyd â phartner allanol i sicrhau bod systemau a phrosesau cadarn ac amlasiantaethol ar waith. Llunio adroddiad ac argymhellion i'r Bwrdd CS (Hyd 2022)</p> <p>Datblygu a chyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer prosesau a phenderfyniadau MASSH.</p> <p>Datblygu defnyddio cerdyn sgôr partneriaeth sy'n mesur perfformiad ac effaith MASSH</p>
2	Plant a Theuluoedd	Byddwn ni'n gweithredu canfyddiadau / canlyniadau'r adolygiad o'r Tîm Lleoli Teuluoedd (TLIT)	<p>Lwfansau Gofalwyr Maeth a ffioedd treuliau i'w gweithredu (Ebr 2022).</p> <p>Proses recriwtio ar gyfer staff ychwanegol i ddechrau (Ebr 2022).</p> <p>Proses benodi a staff perthnasol i fod yn eu swyddi (Awst 2022).</p> <p>Strwythur tîm a rolau a chyfrifoldebau allweddol i'w hymwreiddio o fewn ymarfer Tîm Lleoli Teuluoedd (Hydref 2022).</p> <p>Gweithredu cam 2 a 3 o'r model gweithio yn y Tîm Lleoli Teuluoedd</p>
3	Plant a Theuluoedd	Adolygu'r lletyau addas sydd ar gael i blant ag anghenion cymhleth sy'n derbyn gofal.	<p>Canfod bwrdd prosiect a'i sefydlu (Mehefin 2022)</p> <p>Achos busnes ynghylch: newid polisi i'r cabinet (Medi 2022)</p>
4	Plant a Theuluoedd	Byddwn ni'n cwblhau cyflwyno'r fframwaith rheoli risg / arferion sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn adolygu effeithiolrwydd arferion sydd wedi eu datblygu o'r newydd	<p>Mae ymarferydd ymgynghorol wedi'i gyflogi, a bydd yn parhau i fonitro datblygiad y model a darparu unrhyw hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer aelodau staff newydd.</p> <p>Gostyngiad mewn llwyth gwaith tueddiad 6 mis.</p>

			Gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ar ôl 6 mis
5	Plant a Theuluoedd	Ar ôl adolygu ein poblogaeth plant Lleoli gyda Rhieni, byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r farnwriaeth i sicrhau cais amserol ar gyfer rhyddhau gorchymyn addas	Adolygu cynnydd LIGRh yn chwarterol
6	Plant a Theuluoedd	Byddwn yn cynyddu'r capasiti ar gyfer Cynadleddau Grŵp i Deuluoedd.	Sefydlu cyllid grant a pharhau ag ef yn 22/23.
7	Plant a Theuluoedd	Adolygu a diweddarau'r canllaw rhianta corfforaethol, Cynllun y Bwrdd Rhianta corfforaethol presennol, y swyddogaethau a'r strwythurau a'r prosesau ar draws gwasanaethau rhianta corfforaethol.	Adroddiad dadansoddol i'r Tîm Arwain yn dilyn yr adolygiad o'r Canllaw Rhianta Corfforaethol a Cynllun a swyddogaethau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol presennol i ystyried y camau nesaf (Awst 2022). Adroddiad ac argymhellion i'r Tîm Arwain ar ôl adolygu'r strwythurau a'r prosesau ar draws y Gwasanaeth Rhianta Corfforaethol (Tachwedd 2022). Effaith y strategaeth lleihau CLA Adroddiad ac argymhellion i'r tîm arwain (Medi 2022)
8	Plant a Theuluoedd	Adolygu fframwaith ansawdd a pherfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	Datblygu "cerdyn sgôr" newydd i'w gytuno gan y Tîm Arweinyddiaeth (Ebr 2022). Adroddiad ar Ansawdd i'r Arweinyddiaeth (Gorffennaf 2022) Adroddiad dadansoddol ar gynllunio a gwneud penderfyniadau i'r arweinwyr ystyried y camau nesaf (Gorffennaf 2022) Cynllun Datblygu Gwasanaethau Plant, cynlluniau timau unigol a chynllun gwasanaeth blynyddol (Gorffennaf 2022)

			Effaith y strategaeth lleihau nifer y Plant Sy'n Derbyn Gofal (CLA) Adroddiad ac argymhellion tîm arwain (Medi 2022)
9	Plant a Theuluoedd	Adolygu ac ailgynllunio modelau ymarfer, offer, polisïau, gweithdrefnau, taith y cwsmer, llwybrau cymorth a'r cynnig comisiynu i blant a phobl ifanc.	Cynllun Datblygu Gwasanaethau Plant, cynlluniau tîm unigol a chynllun gwasanaeth blynyddol (Gorffennaf 2022) Adroddiad dadansoddol a diagnostig wedi'i gymeradwyo i Fwrdd y Rhaglen er mwyn awdurdodi'r camau nesaf (Medi 2022)
10	Plant a Theuluoedd	Cytuno ar a gweithredu model diogelu cyd-destunol yn lleol.	Adrodd i LT ynghylch yr arfer a'r argymhellion i'w datblygu (Awst 2022)
11	Plant a Theuluoedd / Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chomisiynu	Ar y cyd â'r Gwasanaethau Pa Th: Adolygu effaith y model ymarfer newydd i'r rheini sy'n dod yn oedolion, a sicrhau ei fod yn ateb y diben	Aml flwyddyn Adrodd i'r Arweinwyr i ddangos tystiolaeth o'r model pontio (Medi 2022).

8. Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau

Dangosydd	18-19 Gwirioneddol	19-20 Gwirioneddol	20-21 Gwirioneddol	21-22 Gwirioneddol	22-23 Targed
Gwasanaethau Oedolion					
Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn (AD/004)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	1,607	1,520	Arweinir gan y galw
- Gyda chynllun gofal a chymorth yn unig yr oedd modd diwallu anghenion (AD/005a)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	272	258	Arweinir gan y galw
- Roedd modd diwallu anghenion gan unrhyw fodd arall (AD/005b)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	1,161	1,189	Arweinir gan y galw
- Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (AD/005c)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	174	73	Arweinir gan y galw
Cyfanswm nifer yr asesiadau anghenion gofalywr i oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (CA/004)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	111	128	Arweinir gan y galw
- Roedd modd diwallu anghenion drwy ddefnyddio cynllun cymorth i ofalwyr neu gynllun gofal a chymorth (CA/005a)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	13	20	Arweinir gan y galw
- Roedd modd diwallu anghenion drwy unrhyw fodd arall (CA/005b)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	78	101	Arweinir gan y galw
- Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (CA/005c)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	20	7	Arweinir gan y galw
Nifer yr asesiadau anghenion gofalywr i oedolion a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn (CA/006)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	359	300	Arweinir gan y galw
Nifer y cynlluniau gofal a chymorth i oedolion y bwriadwyd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn (AD/016)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	1,051	921	Arweinir gan y galw

Dangosydd	18-19 Gwirioneddol	19-20 Gwirioneddol	20-21 Gwirioneddol	21-22 Gwirioneddol	22-23 Targed
- O'r rheini, canran y bobl y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn yr amserau statudol (AD/017)	Mesur Newydd	97%	31.78%	44%	80%
Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth, 75 oed neu'n hŷn. (Mes Perff LIC)	3.24	4.35	Ni chafodd ei gasglu yn 20/21	AMH	5
Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (AD/010a)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	311	238	Arweinir gan y galw
- Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn Lleihawyd yr angen am gymorth (AD/011a)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	135	71	Arweinir gan y galw
- Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn - Cynhaliwyd yr angen am yr un lefel o gymorth (AD/011b)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	175	165	Arweinir gan y galw
- Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lliniarwyd yr angen am gymorth (AD/011c)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	1	0	Arweinir gan y galw
- Ni leihawyd, cynhaliwyd na liniarwyd yr angen am gymorth (AD/011d)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	Mesur Newydd	2	Arweinir gan y galw
Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau'r Anabl	281	272	394	339	220
Gwasanaethau Plant					
Nifer y cysylltiadau i blant a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn (CH/001).	Mesur Newydd	1,428	4,675	4,792	Arweinir gan y galw

Dangosydd	18-19 Gwirioneddol	19-20 Gwirioneddol	20-21 Gwirioneddol	21-22 Gwirioneddol	22-23 Targed
O'r rhai a nodwyd, y ganran lle darparwyd cyngor a chymorth (CH/002)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	71.29%	68.66% (3,290)	70%
Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf (CH/003)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	99.79%	99.98% (4,791)	100%
Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd i blant yn ystod y flwyddyn (CH/006)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	3,236	3,195	Arweinir gan y galw
Cyfanswm y plant sydd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth (rhan 4, mesur lleol)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	143	176	Arweinir gan y galw
Cyfanswm y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth (CH/026)	Mesur Newydd	108	80	93	Arweinir gan y galw
Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth (CH/039)	Mesur Newydd	441	446	407	Arweinir gan y galw
Nifer y rhieni maeth cymeradwy ar gofrestr yr awdurdod lleol am 31 Mawrth (data cyfanredol CA1 Rhan 1) (Blynyddol)	Mesur Newydd	Mesur Newydd	129	121	Arweinir gan y galw
% y lleoliadau maeth a wnaed yn fewnol o gymharu â Lleoliadau drwy Asiantaeth -Mewnol	Mesur Newydd	Mesur Newydd	79%	86%	80%
% y lleoliadau maeth a wnaed yn fewnol o gymharu â Lleoliadau drwy Asiantaeth -Asiantaeth	Mesur Newydd	Mesur Newydd	21%	14%	20%
PAM028 – Canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu cwblhau o fewn amserau statudol (CH012)	Mesur Newydd	95%	98.21%	95%	100%
PAM029 - % y Plant Sy'n derbyn Gofal sydd wedi symud lleoliad teirgwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (CH043)	11.27%	12%	9.87%	7%	8%

9. Risgiau Uchel ac Uchel lawn ar gyfer y Maes Gwasanaeth

	Risg	Tebygolrwydd	Effaith	Lefel	Trin/Goddef
1	Mae risg y bydd niferoedd cynyddol a chymhlethdod yr atgyfeiriadau gan y boblogaeth oedolion ddibynnol yn rhoi mwy o straen ar wasanaethau a arweinir gan y galw (statudol) gan greu amseroedd aros amhriodol sy'n peri bygythiad i annibyniaeth a chanlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth.	4 Canolig/Uchel	4 Sylweddol	Uchel lawn	Trin
2	Mae risg y bydd cartrefi nyrsio lleol ac asiantaethau gofal cartref yn rhoi'r gorau i fasnachu yn y farchnad bresennol a fydd yn effeithio ar y gallu i gomisiynu cymorth priodol i bobl fregus	5 Uchel	4 Sylweddol	Uchel lawn	Trin
3	Mae risg y bydd y cynnydd parhaus yn y boblogaeth 'plant sy'n derbyn gofal' yn gweld cynnydd mewn gwariant a fydd yn parhau i gael effaith andwyol ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod	Canolig/Uchel	Sylweddol	Uchel lawn	Trin
4	Mae risg na fydd y galw am gartrefi o safon / fforddiadwy ac anghenion yn ymwneud â thai yn cael eu hateb os na allwn gynyddu'r cyflenwad oherwydd y diffyg tir sydd ar gael a chael hyd i safleoedd hyfyw.	4 Canolig/Uchel	3 Cymedrol	Uchel	Goddef
5	Mae risg na fydd ansawdd tai y sector preifat (ar rent) yn gwella oherwydd diffyg buddsoddiad.	4 Canolig/Uchel	3 Cymedrol	Uchel	Goddef